**Fforwm Cyllideb 14 Medi 2022**

**Grantiau i ysgolion - Crynodeb ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022/23**

**Diweddariadau wedi'u hamlygu mewn melyn**

**Cyffredinol**

Gall ysgolion gael gwybodaeth am grantiau 22/23 a ariennir drwy Gonsortiwm Canolbarth y De (CCD) drwy fynd i'r ddolen ganlynol. Nid yw pob grant wedi'i nodi eto, ond bydd y daenlen yn cael ei diweddaru wrth i Gonsortiwm Canolbarth y De ddod yn ymwybodol o'r cyllid grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae'r data ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol

Cyllid Ysgol Agregedig 2022-2023 - CCD (cscjes.org.uk) (cntrl a chliciwch i ddilyn y ddolen)

**Cronfa Caledi Covid 2022/23**

Ni fydd grant caledi Covid Llywodraeth Cymru ar gael o fis Ebrill 2022. Gall ysgolion gael gafael ar gyllid corfforaethol ar gyfer ôl-lenwi staff beichiog ôl 26 wythnos lle mae asesiad risg wedi penderfynu na all y staff fod yn y gwaith.

**Grant Dysgu Carlam (Recriwtio, Codi Safonau ac Adfer) - £1,492,940**

Mae'r Grant Dysgu Carlam i ariannu polisi Recriwtio Codi Safonau ac Adfer y gweinidogion ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 wedi'i gadarnhau fel y nodir yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Blwyddyn academaidd 21/22 (5/12) Ebrill 2022 – Awst 2022 | £622,058 |
| Blwyddyn academaidd 22/23 (7/12) Medi 2022 – Mawrth 2023 | £870,882 |
| **CYFANSWM Blwyddyn Ariannol 2022/23** | **£1,492,940** |

**Cyllid Adfer a Dilyniant Dysgwyr ôl-16 –£400,787**

Mae ysgolion wedi derbyn hysbysiad o gyllid Adfer a Dilyniant Dysgwyr Ôl-16 ar gyfer y flwyddyn ariannol 22/23.

Pwrpas y cyllid yw cynorthwyo dysgwyr sydd wedi colli cynnwys pynciau a sgiliau ymarferol yn sgil dysgu o bell; a bod dysgwyr yn cael cymorth bugeiliol i alluogi dysgu a dilyniant yn dilyn y pandemig.

**Cyllid Pontio Ôl-16 - £78,649**

Derbyniwyd llythyr dyfarnu cychwynnol ar gyfer cyllid pontio ôl-16 sy'n dod i gyfanswm o £78,649 ar gyfer y cyfnod Ebrill – Awst 2022. Nid oes dyraniad o fis Medi 2022.

Diben y cyllid hwn yw cefnogi disgyblion ym mlynyddoedd 11,12 a 13 i symud ymlaen i'w cyfnod nesaf o addysg, yn ogystal â disgyblion sy'n dymuno newid llwybrau dysgu.

**Grant Datblygu Disgyblion (GDD) - £4,156,100**

Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi rhoi gwybod i ysgolion am y GDD a oedd yn seiliedig ar **CYBLD 2021** ac nid CYBLD 2022.

**Grant Datblygu Disgyblion - Plant sy'n Derbyn Gofal - I'w gadarnhau**

Aros am gadarnhad o gyllid gan Gonsortiwm Canolbarth y De.

**Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol - (dyraniad ysgolion) - £5,409,660**

Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi e-bostio pob ysgol (ar 25 Mai 2022) gyda'r ddolen i wefan Consortiwm Canolbarth y De lle gall ysgolion gael mynediad at ddyraniadau cyllid Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol. Mae fformiwla Consortiwm Canolbarth y De yn seiliedig ar **CYBLD 2022** (nid 2021 yn unol â'r GDD).

Dangosir fformiwla Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer dosrannu'r grant yn y tabl isod.

| | Cyfandaliad | Cyfradd Disgybl |
|---|---|---|
| **Meithrin** | £3,615 | £39.40 |
| **Cynradd** | £6,790 | £39.40 |
| **Canol** | £14,899 | £39.40 |
| **Uwchradd** | £14,899 | £39.40 |
| **Arbennig** | £11,284 | £123.63 |
| **Uned Cyfeirio Disgyblion** | £11,284 | £123.63 |
| | | |
| **Cyfnod Sylfaen** | dd/b | £548.10 |
| **14-19** | dd/b | £114.22 |

**Grant Dysgu Proffesiynol - £601,969**

Hysbyswyd ysgolion o ddyraniadau ym mis Mehefin.

**Gweithredu ADY mewn ysgolion - £179,207**

Bwriad y cyllid yw cefnogi meithrinfeydd a gynhelir, ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig, ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i baratoi ar gyfer cychwyn graddol a

gweithredu Deddf ADY yn llawn. Defnyddir y cyllid i baratoi'r system newydd i alluogi plant a phobl ifanc i gael eu symud o'r hen system AAA i'r system ADY newydd.

**Cynllun Cyllido ANG - Daeth y Cynllun i ben Awst 2022 (Ebrill – Awst £222,496)**

Mae grant y cynllun ANG wedi dod i ben, gall ysgolion ddefnyddio eu Grant Dysgu Carlam i gadw staff ar gontractau dros dro y tu hwnt i'r dyddiad y daeth y grant i ben.

**Grant lleihau maint Dosbarthiadau Babanod – yn dod i ben yn nhymor yr haf**

Daeth y grant i ben ym mis Awst 2022.

**Cyllid Cydweithredu Consortiwm Canolbarth y De £456,746**

Mae cyllid yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar gyfandaliad o £6k fesul lleoliad a £100 fesul addysgu cyfwerth ag amser llawn yn unol â CYBLD 2021.

**Cyllid atodol ADY Consortiwm Canolbarth y De - I'w gadarnhau**

Nid yw Consortiwm Canolbarth y De wedi rhoi gwybod a gaiff yr arian hwn ei ddyrannu ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23

**Ysgolion Cymunedol – Rheolwr Ysgol Bro a Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd £192,097**

I gyflogi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mewn chwe ysgol a rheolwr ysgol bro.

**Cyllid grant refeniw wedi'i ddyrannu'n ganolog ar gyfer dysgwyr**

Yn ogystal â'r grantiau a ddirprwywyd i ysgolion, dyfarnwyd y cyllid canlynol i'r Awdurdod Lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

| | |
|---|---|
| Dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr | £369,921 |
| Cwnsela, ymyriadau a hyfforddiant lles | £206,407 |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | £67,696 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol - Darpariaeth Dysgwyr | £390,922 |
| Dysgu carlam ar gyfer lleoliadau nas cynhelir | £189,302 |
| Mynediad i'r Grant Datblygu Disgyblion (grantiau gwisg ysgol) | £802,750 |
| Cyllid Cyfnod Sylfaen Meithrinfeydd nas cynhelir | £234,354 |
| Gweithredu Deddf ADY | £70,000 |
| Prosiect CDU ar-lein | £42,000 |
| Prydau Ysgol am Ddim i Bawb (Cynradd) | £1,317,679 |

**Grant Prydau Ysgol Am Ddim i Bawb (Cynradd) £1,317,679**

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd gan ddisgyblion yn y dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a blwyddyn 2, yn ogystal â disgyblion llawn amser mewn meithrinfeydd, hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Ni fydd y grant yn cael ei dalu i ysgolion, gan y bydd y Big Fresh Catering Company yn anfonebu'r Cyngor am brydau a ddarperir am ddim, a fydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol o'r grant.

Bydd ysgolion yn parhau i gael eu hanfonebu am ddisgyblion ym mlwyddyn 3 ac uwch.